# Adroddiad Blynyddol 2020/21

## Cyng. Stephen W Churchman

## Democratiaid Rhyddfrydol

## Ward Dolbenmaen



Pwrpas yr adroddiad yw cynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn.

Gweler y ddolen i wefan y Cyngor am fanylion ynglŷn â chyfrifoldebau, pwyllgorau a chyrff allanol yr wyf yn eu gwasanaethu, yn ychwanegol at fy nghofnod presenoldeb.

# Prif Weithgareddau Etholaethol a Chymunedol

Cafodd fy ngweithgareddau arferol eu heffeithio rywfaint gan bandemig Covid. Fel arfer, byddaf yn cynhyrchu a dosbarthu rhwng pedair a chwe newyddlen bob blwyddyn. Cafodd y math yma o weithgaredd ei wahardd dan reoliadau brys Covid dros fwyafrif y cyfnod. Serch hynny, llwyddais i gynhyrchu a dosbarthu dwy newyddlen rhwng y cyfyngiadau ym mis Medi a Rhagfyr.

- Rwyf wedi gweithio fel gwirfoddolwr cymunedol ers mis Mawrth 2020 ar gyfer preswylwyr oedd yn hunan-ynysu. Mae'r gwaith yn cynnwys casglu presgripsiynau a gwneud negesau siopa ac mae'r gwaith yn parhau hyd heddiw i'r rhai hynny sy'n teimlo bod angen iddynt barhau i hunan-ynysu.
- Rwyf wedi prynu tri argraffydd 3D gan eu defnyddio i gynhyrchu eitemau sy'n ymwneud ag Offer Gwarchod Personol. Ar y dechrau, roedd y gwaith yn cael ei wneud ar y cyd gyda dau o breswylwyr eraill Dolbenmaen i ddarparu offer i weithwyr gofal rheng flaen. Unwaith y diwallwyd anghenion y maes hwnnw, dechreuais gynhyrchu "Ear savers" (sydd wedi'u dylunio i ddal masgiau yn eu lle heb fod ar eich clustiau) a mynd o ddrws i ddrws yn eu cynnig i breswylwyr ward Dolbenmaen.
- Yn ystod y cyfnod hwn, rwyf wedi parhau i fynd i'r afael â materion gwaith achos sydd wedi dod i'm sylw. Roedd fy maich gwaith achos yn cynnwys:

  ymdrin â materion traffig,

  ceisiadau am dai,

ceisiadau cynllunio,
ymddygiad gwrthgymdeithasol,
chwyn a llystyfiant,
llwybrau troed,
llifogydd,
ceisiadau budd-daliadau a
baw cŵn

# Cyfarfodydd, Seminarau a Hyfforddiant y bu i mi eu mynychu

Rwyf wedi nodi y cyfarfodydd i mi eu mynychu isod, yn ychwanegol at y rheiny â nodwyd ar yr ystadegau presenoldeb ar wefan  y Cyngor (gweler y ddolen uchod) :

- Tri o bedwar Cyfarfod Llywodraethwyr Ysgol Garndolbenmaen.
- Y mwyafrif o gyfarfodydd Cyngor Cymuned Dolbenmaen - fel gwestai gan nad ydwyf yn aelod.
- Pob cyfarfod "Panel Buddsoddi" mewn perthynas â gwaith y Pwyllgor Pensiwn.

Rwyf wedi derbyn hyfforddiant o ran Buddsoddiadau Pensiwn fel aelod o'r Pwyllgor Pensiwn, ac wedi cwblhau y cyrsiau sydd wedi'u rhestru isod:

| **Enw Teitl** | **Dyddiad Cwblhau** |
|---|---|
| Trefniadau Cwynion Ysgol - y gwahanol fathau o gwynion, pa Bolisi sy'n berthnasol a sut i ymdopi â nhw | 25/02/2021 |
| Hyfforddiant Zoom | 09/07/2020 |

Cynhaliwyd yr holl gyfarfodydd a'r sesiynau hyfforddi dros Zoom neu Teams yn ystod y cyfnod hwn.